Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

8.6.23

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Yr Urdd – Hoffwn longyfarch y disgyblion a fu yn cystadlu yn yr eisteddfod yn Llanymddyfri yn ystod yr hanner tymor. Roedd llwyddiant mawr i'r ysgol, gyda'r grŵp cerddoriaeth creadigol yn ogystal â'r ddawns greadigol yn llwyddo i gipio yr ail wobr. Da iawn wir i'r holl blant a diolch yn fawr iddynt am yr ymroddiad y maent wedi ei ddangos dros y flwyddyn wrth baratoi at y cystadlu.

Casglu yn gynnar o'r ysgol – Gofynnir i bob rhiant/gofalwr i wneud pob ymdrech posib i osgoi casglu plant yn gynnar o'r ysgol. Mae hyn yn amharu ar nid yn unig y plentyn ond hefyd ar y dosbarth cyfan pan mae gofyn i blentyn orfod gadael y dosbarth yn gynnar, pan yn aml y byddant ynghanol gweithgareddau penodol.

Noson lythrennedd – Ar nos Fawrth Mehefin 13eg, cynhelir noson i rannu gwybodaeth am weithgareddau llythrennedd. Cynhelir y noson yn neuadd yr ysgol o 3.30 hyd at 5.00 gyda chyfle i chi weld ychydig o'r gweithgareddau a wneir o fewn llythrennedd ar draws yr ysgol. Bydd hefyd stondin yn gwerthu casgliad o lyfrau Cymraeg yn rhan o'r noson ddathlu.

Parc a threfniadau diwedd dydd – Ar ddiwedd y prynhawn, o ganlyniad i resymau iechyd a diogelwch, ni fydd ardal parc yr ysgol ar gael i unrhyw ddisgyblion. Gofynnwn yn garedig i bob rhiant/ofalwr wneud pob ymdrech i ymadael a champws yr ysgol yn brydlon, yn dilyn casglu eich plentyn. Bydd hyn yn hwyluso trefniadau i bawb, gan gynnwys trefniadau parcio ar y maes parcio. Hoffwn hefyd atgoffa rhieni/gofalwyr, gan fod nifer uchel o rieni/gofalwyr a phlant ar y buarth ar ddiwedd y dydd, na ddylid reidio beics na sgwteri ar y buarth. Diolch am eich cydweithrediad

Dear Parent/Carer,

Urdd - I would like to congratulate the pupils who competed in the Urdd eisteddfod last week in Llandovery. It was a successful eisteddfod for the school, with both the creative music groups and the creative dance group finishing in second place. Well done to all the children and I would like to thank them for the commitment they have shown during the year in preparing for the competition.

Collecting children early from school – Please can all parents/carers make every effort possible to avoid collecting the children early from school. This is disruptive for the child as well as the whole class when a child is required to leave class early and with little notice when they are in the middle of specific activities.

Litercay celebration evening – On Tuesday June 13th, a literacy celebration event will be held in the school hall from 3.30 until 5.00. This will be an opportunity for you to view some of the literacy activities which the children are involved with across the school. A collection of Welsh books will also be on sale during the event.

Park and end of school day arrangements – At the end of the school day, the school's park area will no longer be available for use. This is due to health & safety reasons. We kindly ask all parents/carers to make every effort to leave the school site promptly following the collection of your child. This will help the end of the school day arrangements, which includes parking and traffic arrangements. Due to the high volume of people on the school yard at the end of the afternoon, can I also remind all parents that the riding of bicycles/scooters on the yard should be avoided. Thanking you for your co-operation.

Yr eiddoch yn gywir/Yours sincerely,

Rhodri Jones
Pennaeth / Headteacher